

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ackroyd & Sons, Bala (1974 - 2008)

Cyfwelai: VN001 Mrs Cath Parry
Dyddiad: 11: 11: 2013
Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English translation of the interview following the Welsh text

00:05 *OK, Cath, ydych chi'n gallu dweud eich enw a dyddiad geni?*

Cath Parry. Ges i ngeni ar y nawfed o Ebrill un mil naw pedwar pedwar.

Diolch. Ydach chi'n gallu dweud rhywbeth am eich cefndir, eich teulu, lle dach chi'n dod?

Dw i wedi byw yn Bala erioed. Dw i'n un o bump. Mae gen i bedair chwaer, a ddaru mi briodi dyn lleol, a gynnon ni ddau o blant, a 'dan ni'n dal yn y Bala.

Eich rhieni, beth wnaethon nhw?

Roedd nhad yn ffarmio ac roedd mam yn wraig tŷ.

Teulu bach clos, felly?

Oedden, oedden. Ond pump o enethod a roedd 'na lot o ffraeo.

01:00 *A'ch addysg? Lle aethoch chi i'r ysgol?*

Es i i ddechrau i Ysgol Fach Llandderfel a pam o'n i wyth oed ddaru ni symud i Ysgol Goch y Bala. Ac yna mi basies i'r *scholarship* a es i i Ysgol y Berwyn.

A faint oedd eich oed yn gadael yr ysgol?

Un deg chwech.

Pam penderfynoch adael pryd hwnna?

Wel, yr adeg honno, *which* dw i'n difaru rŵan, oedd gynna i ddim awydd gwneud gwaith ysgol. O'n i eisio mynd allan i ennill pres, a es i weithio i siop bapur.

Felly'r siop papur oedd eich gwaith cyntaf ar ôl yr ysgol?

Ie.

Am faint oeddech chi'n gweithio yno?

Tua blwyddyn. Achos o'n i'n priodi cyn o'n i'n un deg wyth.

Yn ifanc iawn.

Ie, ie.

02:00

Wnaethoch chi gario ymlaen gweithio ar ôl priodi?

Naddo. Ces i Pat yn chwe deg dau a ches i ei brawd hi, Andrew, yn chwe deg tri.

Oedd gynnoch chi dau o blant yn ifanc iawn?

Ie.

Pryd wnaethoch chi ail-ddechrau gweithio wedyn?

Es i i'r ffatri ym mil naw saith pedwar a dechrau gweithio amser llawn.

Oeddech chi yn y tŷ, fel mam tŷ, am faint o flynyddoedd? Faint oedd y plant?

63 . . Un ar ddeg a deg oedden nhw, ynte, pan on i'n gweithio, dechrau gweithio.

A pham penderfynoch chi ddychwelyd i'r gwaith?

Achos bod gynna i angen y pres.

Y ffatri, sut oedd o? Sut oedd y gwaith y diwrnod cyntaf, ar ôl bod off gwaith mor hir?

Oedd gynna i ofn i ddweud y gwir, o achos oedd lot o Saeson yno, ac on i ddim yn siŵr iawn os on i'n dallt nhw iawn, ac on i'n meddwl bod pawb yn edrych arna i, ac on i'n meddwl 'Na, na, wna i byth aros fan hyn'. Ond bues i yna am dri deg pedair blynedd.'

Amser hir.

Oedd, oedd.

03:17

Oedd yr ail ddiwrnod yn well na'r un gyntaf?

Oedd. Ond fuodd o'n hir cyn cawn i setlo achos oedd gynna i ofn gwneud

rhywbeth yn rong.

Pam oedd lot o Saeson yn y ffatri?

Wel, dw i ddim yn gwybod, roedd yno bobl leol ond roedd yna lot o siarad Saesneg, mwy o Saesneg nag o Gymraeg i ddeud y gwir.

Oeddech chi'n nabod pobl?

Rhai ohonyn nhw, dim llawer.

A sut cawsoch chi'r swydd hon?

Ddaru mi jyst gofyn i'r boss ryw fin nos yn y dre os oedd gynno fo waith yn mynd, a ddaru o ddeud 'Oh! call in tomorrow', ac es i mewn y diwrnod wedyn.

Lwcus iawn! Oeddech chi eisiau mynd yn ôl i'r gwaith?

Oeddwn a nac oeddwn. Oeddwn i eisio'r pres yn fwy na eisio'r gwaith.

Fel lot o bobl.

Ie.

04:15 *A beth oedd y ffatri yn cynhyrchu?*

Pyjamas.

A'r enw ffatri oedd . . . ?

Ackroyds and Son.

Oedd gynnoch chi aelodau o'r teulu neu ffrindiau yn gweithio yna?

Oedd, roedd fy chwaer hyna yn gweithio 'na ond roedd hi mewn gwahanol le. Roedd hi yn y *packing room* ond on i'n gwnïo.

Oce. Oedd hi wedi bod yn gwnïo o'r blaen?

Nac oedd. Ddaru hi ddechrau off yn y *packing room*. Oedden nhw rhoi'r rhai hŷn i bacio a'r rhai iau i wnïo.

Wnaethoch chi wnïo . . .

Gwnïo trwy'r adeg, do.

Felly oedd angen cymhwysterau y weithio?

Wel nag oedd, nag oedd, dim byd.

Dim byd. Allwch chi ddisgrifio'ch diwrnod felly? Beth oeddech chi'n gwneud ar ôl cyrraedd?

05:23

O'r munud roedd wyth o'r gloch yn dod, roeddech'n gwnïo trwy'r adeg tan amser brêc. Pob peth yn mynd efo'r cloc. Oeddech chi'n gorfod gwneud saith deg pump o byjamas mewn hanner awr. A beth bynnag oedd eich job chi ar hwnnw oedd rhaid i chi wneud e mewn hanner awr. A'r dynesi . . . roedd tua chwech ohonon ni yn gweithio mewn rhes. Roedd un yn dechrau off, os oedd ei mashîn hi yn torri, roedden ni i gyd yn aros. Ond roedd rhaid i chi neud y saith deg pump yna bob hanner awr erbyn diwedd y dydd, neu roedd o eisiau gwbod pam.

Felly'r ferch ar y mashîn gyntaf, roedd hi yn gwneud un darn a phasio'r darn ymlaen?

Un darn, oedd, wel adeg honno, roedd hi'n rhoi'r ddwy ysgwydd efo ei gilydd, ac wedyn roedd yr un nesaf yn rhoid y goler, roedd yr un nesa yn rhoi dwy lawes, ac roedd un arall yn cau'r goler i lawr a rhoi label i fewn, ac yr oeddwn innau yn gwneud yr *hems*.

Oce. A wnaethoch chi'r hems drwy'r amser, felly, dyna oedd eich rhan chi?

Ie, ie.

Felly mewn diwrnod, faint o byjamas oeddech chi'n wneud?

Roedden ni'n gweithio wyth awr, ond oedden. Roedd rhaid gwneud *seventy five* Bob hanner awr . . two hundred and fifty . . . roedd cannoedd mewn diwrnod, oedd.

Anhygoel!

Oedd.

07:00

A lle oedden nhw'n mynd wedyn, y pyjamas?

Roedden nhw'n mynd wedyn i gael eu tsecio a'u pacio. **Ac oes oedden nhw ddim yn iawn, dyna yn dod yna - yr hen Mr Ackroyd, tad yr hogiau sydd yna rŵan. Roedd o'n dod i mewn o'r offis, ac os oeddech chi'n gweld o yn rhoid ei sbectols yn ôl yn poced ei siwt, oeddech chi'n gwbod, 'Whew, 'dan ni'n iawn.' Ond os oedd y sbectols yn dal ar ei wyneb o, ac oedd o'n galw chi i fyny, roeddech chi'n gwbod 'dyma ni.' Oedd na rhywbeth yn bod ar rywbeth.**

Fo oedd y supervisor, oedd na supervisor arall?

Oedd 'na *supervisor* oedd, ond y *boss* oedd yr hen Mr Ackroyd.

Ac roedd yn dod ei hunan i lawr y ffatri?

Ie. I tsecio, oedd, oedd. A'r adeg honno, doeddech chi ddim yn siarad, doeddech chi'n deud dim byd.

Na?

Na. O'ch chi ddim yn codi'ch pen i fyny rhag ofn iddo, doedd o ddim yn frwnt, na dim byd, ond bod o jyst dim yn dweud dim byd. Ond os oedd y . . pan oedd y sbectol yn mynd yn ôl yn ei boced, on i'n meddwl 'Whew, 'dan ni'n iawn.' Ac roedd o'n mynd yn ôl i'r offis.

Faint o weithiau mewn diwrnod oedd o'n dod?

Roedd o'n dod rhyw dair gwaith.

Tair gwaith, heb siarad efo neb?

Dim siarad efo neb, na, dim byd.

Oedd gan bobl, oedd gynnoch chi ofn arno fo?

Roedd gen i ofn siarad am un peth, rhag ofn, roedd y nodwydd yn mynd trwy'n bysedd ni eniwê, os oeddech chi'n troi eich pen i ffwrdd, dyna nodwydd yn mynd trwy'ch bys chi. Neu, os oeddech chi'n gorfod galw un o'r meibion i drwsio'r mashîn, wel roeddech chi'n sâl swp ynte? Achos oedd hwnna yn *big thing*, oedd y mashîn wedi torri a dim ond y mab oedd yn medru trwsio.

08:48

Reit. Oedd na dynion yn y ffatri hefyd felly?

Dim ond . . un mab ac oedd un bachgen arall oedd yn rhedeg o gwmpas, yn gwneud y fath . . glanhau rybish, a chi' mod, pethau felly.

Felly ffatri deuluol o . . .

Merched yn unig, ie.

A phan oedd y dyn i fyny yn yr offis, oeddech chi'n siarad rhyngddo'ch gilydd?

Roedden ni'n siarad yr adeg honno, oedden, ac roedden ni'n gwrando ar y radio a pethau, ac yn canu, oedden ni'n cael hwyl, ond . . ond roedd rhaid i chi weithio, 'sech chi'n siarad, wel, gynnoch chi waith dal i fyny, ond oedd?

Chi'mod, dyna oedd o.

Oedd, ac os oedd y mashîn chi'n torri a'r ddynes o'ch blaen chi yn aros am waith, doedd o ddim yn hapus 'te.

Oedd y mashîns yn torri lawr yn aml?

Oedden, oedden, oedden.

Pam?

Wel, dw i ddim yn gwbod. Roedd y nodwyddau yn mynd yn sownd neu rywbeth, chi'mod, ac os oedd y rhai duon yn mynd trwodd, oedd hwnna'n *big job*, ail-thredio hi, oedd.

10:08

Felly oedd rhaid i chi thredio'r machines eich hunan ben bore?

Nac oedd. Oes oedd eisio newid lliw wedyn, y cwbl o'chi'n gwneud oedd torri

fo, clymu fo, a thynnu fo drwodd yn ofalus. Ond deudwch fod hwnnw'n torri a bod chi'n gorfod galw'r *boss*, ynde, i ail-thredio i chi, oedd o ddim yn hapus.

Oedd brêcs gynnoch chi yn ystod y diwrnod?

Oedd, oedd gynnon ni brêc bore a gynnon ni brêc amser cinio a pump munud yn y prynhawn.

Dim ond pump munud?

Ie. Ond fedsech chi ddim relacio achos roeddech chi'n gwbod bod rhaid i chi wneud *so and so* erbyn pump o'r gloch, neu erbyn cyn mynd adre.

Ac oedden nhw yn ystod y brêcs . . . wnaeth y ffatri yn rhoi coffi a te am ddim? Neu fwyd am ddim?

Nac oedden. Roedden ni'n prynu coffi o'r mashîn, neu fynd â bwyd eich hun.

Doedd dim cantîn na dim byd?

Nac oedd. Dim yn y stryd fawr. Na.

Rhaid i chi ddod allan . .

On i'n dod adre ond roedd rheiny oedd yn byw allan o Bala, oedd rheiny yn eistedd ar y wal tu allan neu eistedd wrth y mashîn a byta.

A lle oedd y machine?

Oedd y machine mewn stafell fawr, roedd pawb yno efo ei gilydd, roedd *jackets* un ochr o'r rwm a trowsusau'r ochr arall.

Dim ond un stafell oedd, felly?

Un stafell wnïo, ac roedd hi'n stafell fawr.

Ac yn y ffatri, faint o stafelloedd?

Yn y Stryd Fawr, roedd y stafell fawr wnïo, roedd stafell fach arall roedden nhw'n rhoi nhw mewn bwndeli o rownd seisys, roedd *packing room* ac roedden nhw'n torri fyny'r stair.

i

12:00

Reit, ocê. Pan dach chi'n dweud 'y stryd fawr' dych chi'n meddwl ochr y ffatri ar y stryd fawr?

Ydy, ydych chi'n stepio o'r stryd fawr i mewn i'r ffatri, wel, pasej oedd o, hen filding ofnadwy, ofnadwy o hen, dim gwres na dim byd.

Oer yn y gaeaf felly?

Cathon ni fath o ryw roced o beth, dw i'n cofio, a'r *fumes* a'r tân, ynde, ond dim *else* yno.

Oedd yna tân? Tân agored?

Na, dim tân, na, nag oedd. Och chi'n gwnïo weithiau yn eich cotiau.

A beth am dy fysedd di?

Wel, oeddech chi ddim yn teimlo rheiny, na fyddech, achos oeddech chi'n iwsio Nhw trwy'r adeg, oedd rheiny'n gynnes.

Oeddech chi'n cerdded i'r gwaith, dw i'n cymryd?

Oeddwn, oeddwn, oeddwn. Ond y genethod a oedd yn dod o Landrillo a Cynwyd, oedd gennan nhw fan yn eu hól nhw.

Fan y ffatri?

Oedd.

Oedd hwnnw'n rhad ac am ddim?

Oedd, adeg honno, tan aethon ni i'r un newydd, ac yna roedden nhw'n codi pres.

13:10

Ydach chi'n cofio faint oeddech chi'n ennill?

Dw i'n cofio y tro cyntaf, y cyflog cyntaf ges i, oedd un ar ddeg punt a rhywbeth am bedwar deg awr. Ond oedd o'n lot o bres.

Ar y pryd.

Oedd.

Ac oedd eich gŵr yn gweithio ar yr un pryd?

Oedd, oedd.

A beth am y plant, oedden nhw yn yr ysgol?

Roedden nhw yn yr ysgol ac roedd Mam yn gofalu ar eu hól nhw tan on i'n dod adre am bump.

Oedd hi'n anodd, y ddau ohonoch chi'n gweithio a chynnal teulu ar yr un pryd?

Oedd, oedd, ond roedd y gŵr adre rhyw hanner awr o'm mlaen i. Ond adeg honno on i'n *organized*. On i'n gwneud bwyd y noson cynt, fath o stiwb a pethau, oedd yn barod ar y diwrnod wedyn. Ac oedd hynny'n neis. Oedd yn iawn.

Oedd pawb yn cael yr un cyflog, mwy neu lai?

Dw i'n meddwl mai dim ond y *supervisor* oedd yn cael mwy o gyflog. Oedden ni gyd fel arall ar yr un un cyflog, oeddem.

14:30

Oeddech chi'n rhannu eich cyflog chi gyda'r teulu, neu yn cadw rhywbeth?

Na, roedd yn jyst yn mynd i mewn i botyns (?) ac roedd pethau yn cael eu talu.

Oedd na unrhyw 'perks' yn y ffatri?

Oedd, y parti 'Dolig, a pan wawn ni gael dechrau mynd i rasys ceffylau a phethau. Oedd hynna'n neis. Roedden ni am gael hwyl.

Oedd y rasys ceffylau yn rhywbeth bob blwyddyn felly?

Oedd. A weles i erioed mo'r ffasiwn beth. Ac o'n i'n meddwl, a nhw'n deud trwy'r flwyddyn bod nhw'n mynd â ni i Bangor on Dee, i'r rasys ceffylau, ac o'n i'n meddwl, 'Ie, dw i am fynd', ac yn cofio mynd mewn sgert a *high heels* a *jacket* denau, ha ha, a cyrraedd yno a pawb mewn *wellingtons*, ynde, a cotiau cynnes. Ond cathon ni lot o hwyl, do, lot o hwyl.

Oedd y ffatri yn trefnu bws a phopeth i chi?

Oedden, oedden, roedd yn talu am bob peth.

Y bwyd . . ?

Oedd, oedd o'n glên iawn efo pethau fel 'na, chwarae teg. Oedd, oedd o'n glen, a'r parti 'Dolig yr un fath.

Oeddech chi'n betio wedyn yn y rasys?

Oedden, oedden.

Oeddech chi'n ennill?

. . . ennill dim ond punt, dw i'n meddwl, rhywbeth felly. Ond oedd o'n hwyl, sŵn i erioed wedi yn bod yn ffasiwn le heblaw on i'n gweithio.

15:58

Ac yn y rasys yma, oeddech chi fenywod i gyd neu oedd y teulu yn dod?

Na, dim ond pawb oedd yn gweithio yn y ffatri, doedd neb arall yn cael dod.

Y gŵr, dim byd?

Nac oedd, na, nac i'r parti Dolig, dim ond pawb oedd yn gweithio yno, os oedden nhw eisiau dod.

A'r parti Dolig, lle oedd o?

Neuadd y Cyfnod, bron bob blwyddyn, yn Bala. Achos dyna'r unig le sy'n medru cymryd cymaint ohonon ni.

Felly faint oedd yn mynd?

O, tua rhyw, dros gant, oedd.

Oedd y boss yno hefyd?

Oedd y boss, ac roedd y wraig - y boss yn dod, Mrs Ackroyd, yr hen wraig, hi oedd Yn gwneud y cyflogau, a hi yn dod â'r cyflog rownd.

Yr hen wraig, mam Mr Ackroyd?

Mam Nigel a David Ackroyd, ynde, sydd yn rhedeg o rŵan.

Roedd hi yn wraig i'r hen Mr Ackroyd?

I'r hen wraig efo'i glasses yn ei boced, oedd.

Felly oedd hi yn gweithio yna hefyd?

Oedd, a nhw, y ddau ddaru ddechrau'r lle off, ac wedyn rhoid o i'r meibion.

17:14

Oedd na bonus hefyd amser 'Dolig, bonus ariannol felly?

Dw i'n cofio bonus, ond gynnwys ni - cael bonus yn y ffatri newydd achos bod ni'n gwneud cant bob hanner awr, ydyn ni'n cael bonus. Ac os oedd o eisau ordyr allan, oeddech chi jyst yn gweithio overtime, achos roedd rhaid cael nhw allan. A dyna neb yn gwrthod, ynde, achos roeddech chi'n gwbod os 'sai hwn ddim 'n mynd allan, oedd o'n medru deud 'tha ni mewn ffordd neis, os oedd o ddim yn cael yr ordyr allan 'sai dim gwaith. Ond dw i ddim yn gwybod os oedd hwnna'n wir. Ac roedden ni gyd yn gwrando, achos roedden ni eisio gwaith.

Felly, oeddech chi'n fodlon gwneud y gwaith yn gyflym?

Oedd, oedd, oedd yn gyfleus a dan ni'n medru gwneud o, achos roedd o'n gwbod bod ni'n medru gwneud, achos roedden ni'n siarad mwy a mwy fel roedd yr amser yn mynd ymlaen. . . . Dyna fo yn gwybod bod ni'n medru gwneud 'chwaneg, ond ...oedd. Na, oedd o'n foss da ond oedd o'n waith caled.

A'r cydweithwyr, wnaethoch chi ffrindiau mawr yno?

Do, achos mae pawb yn deud, ym, dy ffrindiau ffatri ydy, ffrindiau ffatri ydyn nhw hefyd. **Dan nhw ddim yn ffrind, fatha 'sai gennyh chi ffrind iawn – ffrindiau gwaith a gwaith chi'n siarad amdano, a joinio mewn yn y pethau gwaith. Ond mae ffrind arall yn ffrind pennaf sy ddim yn gweithio efo chi.**

Felly'r menywod yn y ffatri, doedden nhw ddim yn ffrindiau go iawn?

Oedden nhw'n iawn, oedden, 'swn i byth yn mynd allan efo nhw ond roedden ni'n iawn yn y gwaith, achos on i eisio gweithio efo nhw. Ond doedden nhw ddim yn ffrind pennaf, nac ydyn.

Felly, nawr, ydyh chi'n dal yn nabod rhai ohonynt?

O, ydw, 'dan ni'n dal yn gweld ein gilydd, chi'mod, a'r cwbl 'dan ni'n siarad am ydy'r ffatri, ynde, achos does gennyh ni ddim byd arall i siarad am, achos

ffrindiau felly oedden ni.

Felly mae 'na rai dal yn byw yn y dre ma?

Oes, oes, Mae 'na rhai, dw i ddim yn gwybod am y rhan fwyaf, ond y rhai hŷn, ynde. Mae 'na lot wedi dod o 'na, wedi priodi, ac mae plant wedi gadael yr ysgol ac wedi cael plant, dw i'n gweld rheiny.

19:49

Oedd undebau llafur yn y gwaith?

Union? Oedd, oedd.

Oeddech chi'n aelod?

Oeddwn.

Oedd rhaid i chi fod?

Dim rhaid i chi fod ond roedd y gŵr yn benderfynol mod i'n joinio yr union.

Pam?

Dw i ddim yn gwybod, achos roedd o'n gweithio ar y bwrdd dŵr, a bendant, meddai fo, paid â peidio joinio, fydd rhaid i ti wneud.

Bu yna unrhyw broblemau, fel streic, neu anghytundeb?

Cathon ni ddim streic ond oedd y boi *union* yn dod aton ni yn aml, achos roedd yn trial gwneud, o dw i ddim yn gwybod, ddaru drïo i'r ffatri fynd yn ei blaen am fwy o amser *which* (?) medru gwneud. Cath o ryw grant a rhywbeth, chi'mod, cathon ni fwy o waith, achos y dyn *union* am lwc. Ond pan ddoth i'r diwedd, fasai neb wneud dim byd, achos genna fo mo'r gwaith i ni.

Oedd rhaid i chi dalu rhywbeth i fod yn aelod?

Oedd, doedd o ddim llawer, rhywbeth fel punt ne rhywbeth, doedd o ddim byd eniwê.

Punt bob wythnos?

Dw i'n cofio doedd o ddim byd o bres beth bynnag, **ac roedden ni'n talu 20 pence at Barnardos bob wythnos, which oedd yn beth da, oedden nhw jyst yn cymryd o'ch cyflog chi. Ac roedd rheiny yn dod i'n gweld ni teirgwaith y flwyddyn, chi' mod, i ddiolch am faint 'dan ni wedi . . .**

21:21

Oedd gynnoch chi iwniform ar gyfer y gwaith?

Nag oedd.

Beth oeddech chi'n gwisgo felly?

Adeg honno, roedd pawb yn gwisgo oferôls neilon, ond oedd, dach chi'n cofio

rheiny?

Dw i ddim, ond oferôls eu hunan, oedd rhaid i chi brynu nhw, neu wneud nhw?

Ie, na, o'ch chi'n prynu nhw.

Doedd y gwaith ddim yn rhoi arian?

Na, dim byd, na.

Oeddech chi'n hoffi gwisgo oferôls?

Oedden, roedd pawb mewn oferôls smart iawn, oedd. Roedd yn cyfro eich dillad chi ac wedyn pan aeth rheiny allan o ffasiwn roedd pawb jyst yn mynd mewn trwsus a top.

Felly, yn ystod eich amser, aeth yr oferôls 'ma allan o ffasiwn?

Do, do.

Pryd oedd hwnna?

O, maen nhw wedi mynd allan o ffasiwn ers blynyddoedd, o ynde, lot, am ryw ddeg mlynedd fues i'n iwsio nhw, dw i'n meddwl.

A sut oedden nhw, rhyw fath o gôt?

Roeddech chi'n medru cael un fel côt efo botymau, neu roeddech chi'n medru cael un dros eich pen ac yn cau dwy ochr, tabard, oedd rheiny mwy smart.

A pha fath o overall oedd gynnoch chi?

Cotiau efo botymau i ddechrau *off* ac wedyn ces i un llai, ac es i i'r ffasiwn newydd wedyn, dros fy mhen.

Oedd lliw favourite gynnoch chi?

Nac oedd, *turquoise*, pink neu glas.

23:05

Oedd yn well gynnoch chi wedyn heb yr oferôls?

Na, dw i'n meddwl bod yr oferôls, on i'n teimlo fel bod ni'n gweithio mewn oferôl. Ac oedd e'n cadw chi'n gynnes yn y gaeaf.

Oedd pawb yn meddwl yr un peth?

Oedd, 'swn i feddwl, oedden. Ond roedd pawb fath o'n trio cael un neisiach na pawb arall, ynde, oedd.

Ac eich esgidiau, pa fath o esgidiau oeddech chi'n gwisgo?

Unrhyw beth, roeddech chi'n cael gwisgo unrhyw beth.

Cyfforddus?

Oedd eich traed chi yn beth saff, (?) ylwch chi, eich traed oeddech chi'n iwsio, ynde. **Eich dwylo oedd y gwaethaf, roedd na wastad nodwydd yn mynd trwy'r bys chi, a dyna oedd pinchars wedyn i gael o allan, ond roedd eich traed chi yn *better*, roedd rhywbeth ar eich traed. Ond dw i'n cofio un ddynes rhyw fore yn dod i mewn yn ei rolyrs, achos roedden nhw am fynd allan, ynde, ac oedd gynni hi sgarff drosodd. Dw i'n gweld hi rwan, a dw i'n cofio Mrs Ackroyd yn dod trwodd ac yn deud "*Can you please go home and take your rollers out.*" A chafodd hi fynd adre, dw i'n cofio hynny, ac yn mynd 'O, mae wedi cael row ac mae'n mynd adre.'. Achos, oedd gynna i ofn, ynde.**

Wnaeth hi ddychwelyd wedyn?

O, do, do. Syth ar ôl mynd adre a tynnu'r rolyrs, ddoth hi'n ôl.

Aethoch chi rhywbryd efo rolyrs?

Naddo, naddo, o naddo. Roedd gynna i ofn, do, naddo. A dyna'r unig beth glywais i, chi'mod, ddaru ddim byd arall, achos doedden ni ddim yn gwneud dim byd arall. Ie, dyna'r unig beth, jyst y rolyrs 'na, dw i'n cofio hynny, a dw i'n cofio hi'n codi i fyny wrth y mashîn yn goch a mynd adre. Roedd hi eisio mynd allan y noson, neu rywbeth, ac eisio ei gwallt i sychu yn iawn yn y rolyrs.

24:30

Oedd bobl yn gwisgo make up?

Oedden, oedden.

A nail varnish?

Dim nail vanish, nag oedden, doedd neb llawer yn ponsio efo'i dwylo. Achos oeddech chi'n iwsio nhw gymaint, mae'n siwr.

Y damweiniau gyda'r nodwyddau, oedden nhw'n ddifrifol weithiau? Oedd bobl yn gwaedu?

Oedden, os oedden - fyddan nhw'n mynd â chi i'r syrjeri.

Syrjeri leol?

Cafodd neb *first aid* na ddim byd.

Doedd na ddim?

Nag oedd, nag oedd, dim yn y dechrau, os oeddech chi'n brifo, roedden nhw'n mynd â chi i'r syrjeri.

Y boss, felly?

Ie, oedden. **Ond os oeddech chi jyst yn cael nodwydd, oeddech chi jyst tynnu hi allan a platar.**

Felly, roedd 'na ryw fath o kit first aid?

O oedd, oedd 'na blastars, oeddech chi'n cael mynd i'r offis i nôl un.

Oedd rhaid i chi reportio bob tro bod y nodwydd yn mynd i mewn?

Oedd, roedd hi'n dod â llyfr i chi, a gofyn be oeddech chi wedi gwneud.

Oedd rhai damweiniau wedi digwydd i chi a bod rhaid mynd at y meddyg?

Na, naddo, diolch am hynny, naddo. Ces i ddigon o nodwyddau ond ces i ddim byd mawr.

26:26

A'r damweiniau mawr, pa fath o ddamweiniau fyddent?

Roedd rhai, roedd 'na blades i mewn i'r machines a oedden nhw wedi rhoi eu bys arno ac wedi rili rhwygo, ynde. Chi'mod, pwysau (?pressure) oedden nhw'n cael ond dim byd mwy na hynny, doedd na neb yn brifo yn ofnadwy.

Oedd na rheolau gwaith eithaf strict? Beth oedd yr arfer?

Oedd, roedd o'n strict, achos roedd rhaid i chi wneud, deudwch bod chi, oedden nhw'n gwybod erbyn diwedd y diwrnod faint o waith oedd yn y *packing room*. Ac os oedd dim wedi cyrraedd yno, roedd eisio gwybod, *even* 'sech yn cuddio nhw, fasai fo dal yn gwybod.

Ydach chi'n cofio sut oedd y ffatri ei hunan? Goleuadau, swnllyd? Dach chi wedi son bod o'n oer.

Oedd, roedd yn swnllyd ofnadwy ac roedd o fatha sied, yr unig beth oedd yn cael ei lanhau oedd y llawr. Doedd y *cobwebs* byth yn dod i lawr, achos roedd y waliau yn disgyn i lawr, achos oedd yn hen filding. Ac oedd y glaw yn dod i mewn.

Pam? Na chafodd o ei drwsio?

Naddo, naddo. Mae'n beryg bod nhw'n gwybod y byddent yn symud, dyna pam. Gathon ni fwy o hwyl yn yr hen ffatri efo'r ffordd roedden ni'n gweithio na chathon ni yn y ffatri newydd. Doedden ni ddim yn iwsd i'r pethau, chi'mod, y gwres *on* trwy'r dydd, llawr yn lân 'na, dim *cobwebs*. **Gathon ni fwy o hwyl yn yr hen un, ynde. Ond oedd hi'n hawddach gweithio yn yr un newydd.**

Felly, pan dach chi'n deud yr un hen, y ffatri pyjamas dach chi'n son am?

Ie.

Ac wedyn cafodd hwnna ei brynu gan rywun arall?

Naddo.

Sut wnaeth o droi yn un newydd felly?

Gath o brynu, gathon ni un newydd ar yr *industrial estate*.

Adeilad newydd?

Ydy, adeilad newydd sbon.

Ond oedd well gynnoch chi'r hen?

Oedd well gynna i'r hen un, oedd.

Pam?

Dw i ddim yn gwybod, roedd yn siwtio i'n well pan on i wedi cychwyn a, chi'mod, i gymharu â'r un newydd, oedd hwnna'n rhy smart. Roedd 'na cantîn, roedd paned yn barod i chi, i gymharu â sefyll wrth y mashîn i aros am de. Oeddwn, dw i ddim yn gwybod, roeddwn yn fwy hapus o lawer yn yr hen un.

30:00

Yn yr hen ffatri, oeddech chi'n sefyll neu eistedd ?

Eistedd. Roedd rhai yn sefyll trwy'r dydd .

Reit, dewis nhw oedd hynny?

Naci. Roedd rhaid iddyn nhw sefyll i fyny i bacio, on'd oedd? Ac roedden nhw'n dal i sefyll i fyny i bacio yn yr un newydd.

Ac oeddech chi'n cymryd paned ar bwys y mashîn?

Yn yr hen ffatri. Doedden ni ddim 'n cael gwneud o yn y ffatri newydd.

Am faint oeddech chi yn yr hen ffatri?

O, s'dim cweit yn deg mlynedd - mae ffatri newydd fyn mnd i fyny. Roeddwn i am flynyddoedd yn yr hen un.

Ydych chi'n cofio faint oedd eich oed yn symud i mewn i'r ffatri newydd?

On i ddim yn hanner cant. Dw i'n *hopeless* efo *dates*.

Oedd y ffatri newydd yn bellach i ffwrdd?

Oedd, lot bellach.

Oeddech chi'n cerdded o hyd?

Dal i gerdded, oeddwn. Oedd 'na fws yn dod o Flaenau, wedyn, ond roedden nhw yn gorfod talu. **Roedd yn iawn, oedd, jyst bod ni ddim yn iwsd i'r *luxury*, ynde, Dyna oedd o. Roedd o'n neis iawn, glyd ofnadwy.** Ond roedd y *rules* yr un fath, oedd y gwaith yr un fath, jyst bod ni'n gwneud lot o bethau gwahanol.

31:40

Fel beth?

Roedden ni'n gwneud crysau nos a pethau yn y ffatri newydd, a siorts i fynd efo pyjamas, a rhyw dopiau gwahanol. Roedd yn waith gwahanol *altogether*. Gorfod ni newid ein dull o weithiau i gyd, ynde. Er mod i'n gwneud hems, roedd yr hems yn wahanol. Ydy hynny'n gwneud sens?

Ydy. Oeddech chi'n gwneud y pyjamas o hyd ond pethau eraill hefyd?

Pethau newydd, ie.

Mwy o waith?

Oedden, oedden.

Ac oedd mwy o ferched yn gweithio yn y lle newydd?

Oedd dim, oedd na fwy o ferched, ond oeddech chi'n dal i wneud eich gwaith ei hun, dyna oedd o. Oedd eich gwaith chi heb newydd, ynde.

Ond oedd y boss yr un person?

Y meibion oedd erbyn rwan, ynde.

Oedden nhw'n wahanol i'w tad?

Oedd eu tad yn deud dim byd ac roedd y mab yn gweiddi dros bob man.

Oedd?

Oedd, ond oedd o wastad yn apologiso, bod gynno fo ryw *worry* hyn a rhyw *worry*'r llall, oedd pob peth yn *worry* a dyna pam oedd o'n gweiddi

32:57

Oedd yn gweiddi arnoch chi weithiau?

Nac oedd, na. Doedd o byth yn gweiddi ar un person, roedd o'n gweiddi ar bawb. **Ond roedd gen bawb ofn. Chi'mod, dw i ddim yn gwybod os mae'r oes felly oedd hi, fasai neb yn agor ei geg basai fo'n dechrau gweiddi, achos oedd gynnon ni ormod o ofn.**

Am beth oedd o'n gweiddi felly?

Bod 'na rywbeth wedi dod yn ôl, neu bod rhyw ffyrn dim eisio rhywbeth, bod o ddim digon da. Gweiddi dros bob man ac wedyn, y diwrnod wedyn, roedd yn apologiso.

Sut oeddech chi'n teimlo am yr apologies ma?

Os oedd o ddim eich job chi'ch hun, doeddech chi ddim yn poeni gymaint, ac yn meddwl, 'O, wneith o apologisio yfory i bwy bynnag eniwê'. Ond oedd o byth yn aplogisio i un person, oedd pawb yn rong.

Ond oedd yn aplogisio y diwrnod wedyn? Nid yn syth ar ôl gweiddu?

Na, na.

A'r boi arall, oedd o'r un peth?

Oedd y *twin*, ei frawd o, wastad i ffwrdd. Oedd o'n gwneud y trafaelio a'r ordro, a ponsio. Oedden ni byth yn gweld fo.

34:22

Oedd y cyflog yn well yn y ffatri newydd?

Roedd y cyflogau wedi mynd i fyny erbyn hynny, roedden ni'n cael *basic wage* trwy'r adeg ond oedden ni'n cael *bonus*.

Yn y ffatri newydd oedd bonus?

Oedd, oedden.

A'r oriau gwaith?

Roedd yr oriau gwaith, dw i'n meddwl, wedi newid i *thirty eight and a half*, neu rywbeth.

Cyn hynny?

Roedd o'n bedwar deg. Oedden ni'n jyst yn gorffen am un ar ddydd Gwener, yn Lle chwarter wedi tri fel roedden ni'n gwneud yn y dre - rhywbeth felly.

Oedd hynny'n well gynnoch chi?

Oedd yn iawn, oedd, oedd yn iawn.

Oedd eich plant yn yr ysgol pryd honno?

Oedden, oedden, ond roedden nhw'n hŷn, ond oedden, roedden nhw'n ddigon hen adeg honno

Oedd rhaid i chi weithio penwythnosau weithiau?

Weithiau bore dydd Sadwrn, chwech tan hanner, ond dim byd arall, os oedden nhw eisio rhywbeth *special*.

Felly amser 'Dolig, er enghraifft, oedd na fwy o waith?

Basen ni'n neud 'Dolig yn ganol haf, basen. Roedd pethau 'Dolig yn barod yn ganol haf, chi'mod, ac roedd rheiny wedi mynd.

35:35

Oedd rhaid i chi, oedd 'na system i glocio mewn a mas?

Oedd, oedd.

Oedd rhaid i chi clocio mewn a mas ar gyfer brêcs ac amser cinio?

Nag oedd, dim ond yn y bore, amser cinio, ac ar ôl amser cinio am bump o'r gloch.

Felly oeddech chi'n gweithio wyth tan bump?

Oedden.

Sut oeddech chi'n cyfuno bywyd gwaith a bywyd teulu, a bywyd cymdeithasol?

Roedd o'n galed ond roeddech chi wedi dod i mewn i rwtîn, doeddwn i ddim yn mynd allan ar fin nos beth bynnag, felly doedd o ddim yn gwneud gwahaniaeth. Na, oedd o'n iawn, oedd, roedd yn galed ond roedd o'n iawn. Roedden ni'n gweithio rhyngddo.

Oedd adegau pan oeddech chi'n mynd allan gyda'r nos? Neu dim arfer chi oedd mynd allan?

Na, ni byth yn mynd allan gyda'r nos, na.

37:00

Ydych chi wedi mwynhau gweithio mewn ffatrioedd?

Rhaid i mi ddeud, do. Er yr holl helynt a pethau, do, dw i wedi. Yr unig beth ddaru mi ddysgu cau fy ngheg a gwrando ar bawb ac ateb pawb. Achos oedd 'na gymaint o siarad trwy'i gilydd a roedd 'na gymaint o ffraeo, on i'n meddwl, 'Wel, os wna i agrïo efo pawb, wneith neb ffraeo efo fi'. A ddaru mi ddysgu lot ... chi'mod, sort o gwrando ar bawb.

Oedd pawb, oedd y merched yn siarad drwy'r amser?

Oedden, roedden gwneud *gangs* ohonon ni. Roedden ni'n mynd, chi'n gwybod, oedd yr un un oed efo ei gilydd, a'r rhai ifengach gyda'i gilydd, siwr, achos doedd ganddyn nhw wahanol fywyd, ond oedd.

Felly, oeddech chi mewn gang?

Oeddwn, oeddwn. Ac roedden ni'n cael y *records* 'ma i gyd ar drwy'r dydd, ac roedd pawb yn canu. Cathon ni hwyl, ynde.

Oedd pawb yn canu yn y ffatri felly?

Oedd, roedd 'na lot yna yn canu, oedd. Oeddech chi'n canu wrth weithio, chi'mod.

A phawb yn canu gyda'i gilydd? Neu yn canu'n dawel?

Oedd, on i'n canu dros bob man, ynde, ond roedd rhai yn canu'n dawel wrth weithio. Ond roeddech chi'n gwybod bod nhw'n mwynhau'r radio.

Oedd pobl yn cwmpo mas o bryd i'w gilydd?

O, bobol bach, oedd, oedd, andros o lot o hynny.

Pam?

Dw i ddim yn gwybod. Mae'n rhaid bod rhywun wedi deud rhywbeth am rywun, dw i ddim yn gwybod. Ond on i'n trio cadw fy hun allan o bob peth. **Un ffeith dw i'n gofio yna, chi'n gwybod, tynnu gwallt a pethau. Ie, dwy ferch yn tynnu gwalltiau ei gilydd, a dw i ddim yn cofio am beth oedd o, i ddeud y gwir, ond ?(dychrynnais) i am fy mywyd. A dyna'r boss yn dod ac roedden nhw'n stopio.**

39:20

Am faint oeddech chi yn y ffatri o'r dechrau i'r diwedd?

Am dri deg pedwar o flynyddoedd.

A pham wnaethoch chi ymddeol?

Naddo, ddaru nhw wneud ni yn *redundant*.

Sut oeddech chi'n teimlo am hynny?

Wel, on i'n meddwl, 'sai rhaid i fi orffen yn chwedeg wyth beth bynnag. Ac on i'n chwedeg pump pan ddaru nhw orffen. So on i'n meddwl, dw i'n gorfod gorffen rywbyrd ond doeddwn i ddim barod i'w wneud.

Oedd pobl eraill yn barod?

Nac oedden, nac oedden.

Oedd pawb yn drist?

Oedd, oedd pawb yn drist, chwarae teg, er bod y creadur yn gweiddi roedd o'n crio'r dirwnod olaf, na, roedd hi yn drist, ynde, oedd, chwarae teg. Achos mae rhywun yn mynd i mewn i rwtîn, tydy, chi'mod, dach chi'n mynd yno erbyn wyth, dach chi'n dod yn ôl erbyn pump, a dyna fo.

Oeddech chi'n hoffi'r rwtîn yna?

Oeddwn, oeddwn, achos on i wedi gweithio fy hun rownd o. **Oedd, roedd o'n iawn, rhaid i mi ddeud oedd o'n hapus, er bod 'na adegau ofnadwy. Criaes i lawer yn Y dechrau, ynde, meddwl na fedrwn i ddim gwneud o . . . (?).**

40:50

O achos oeddech chi ddim yn gyfarwydd â gweithio neu oeddech chi ddim yn siwr?

On i ddim yn licio gwnïo am un peth, ac on i ddim eisio *full time* on i'n meddwl. Ond doedd 'na ddim byd arall.

Am faint o amser oeddech chi'n crio? Pam wnaeth pethau newid?

O, jyst am ryw fis, chwe wythnos yn y dechrau. on i'n meddwl 'Wna i byth wneud o, bydd pawb yn gweiddi arna i, a dw i'n methu gwneud o.' Ond mi ddoth yn y diwedd.

Wnaethoch chi ddysgu lot am eich hunan, felly, yn y ffatri?

Do, ac mae pawb yn meddwl os dach chi'n gweithio mewn ffatri pyjamas, bod

chi'n medru gwneud eich dillad eich hun. Fedra i ddim gwnïo, chi'mod, fedra i ddim gwnïo, ynde. Fedra i ddim iwsio mashîn adre am un peth, achos bod chi wedi arfer iwsio eich coesau, a bod eich dwylo chi'n rhydd a bod nhw'n ffast. Dw i'n cofio trio un lectric adre, roedd y bwrdd a finnu'n jympio a don ni ddim yn mynd i 'nunlle. Achos mae gennych goes, a'r nodwydd, mae gynnoch chi'r ddwy goes i wnïo, gynnoch chi'r ddwy law, on'd oedd.

Yn y ffatri?

Ie. Chi'mod, oedd gynnoch chi ddwy law a dim byd, dim ond iwsio'r ddwy law. So, roedd o'n hawdd yn y diwedd ond fedra i ddim gwnïo, ynde.

Wnaethon nhw trainio chi ar y machine i ddechrau?

Naddo, dim rili. Cathon ni ryw ddirwnod efo tamaid o ddefnydd i weld sut oedd o'n gweithio.

Dyna i gyd?

Dyna'r cwbl, ie.

Oedd o'n hawdd wedyn dod yn arfer i'r . . . ?

Oedd, achos roeddech chi'n gwybod faint oeddech chi eisio rhoi eich traed i lawr, pa spîd, oedd ochr y goes dw i'n codi'r nodwydd *with yn brilliant*, ynde, achos roeddech chi'n jyst yn symud o, oedd o'n *brilliant*.

Oedd o'n otomatig?

Oedd o mor hawdd, oedd. Na, oedd o'n iawn, ond fedra i ddim gwnïo.

Na?

Na. Fedra i wnïo botwm ond fedra i ddim gwnïo. Ac maen nhw'n methu dallt pam bod fi ddim yn gwneud dillad i fy hunan achos bod i i yn y ffatri. Wel, dw i ddim yn cymharu'r ddau beth.

41:40

I chi, oedd bywyd gwaith a bywyd arall, gwahanol?

Oedd, oedd. 'Sw'n i byth eisio mashîn adre, ynde, a finnu ar mashîn trwy'r dydd. I beth? Basai ddim pwrpas cael un adre.

Beth oeddech chi'n gwneud yn y tŷ, felly, i ymlacio? Oeddech chi'n ymlacio yn y tŷ ar ôl gwaith?

Jyst *television*, o na, ar fin nos, sut fedra i ddeud wrthach chi, roedden ni . . . chwerthin llawer am bethau gwirion fel teulu, ac roedden ni'n wastad yn mynd i'r gwelyau'n gynnar, a dyna ni, roedd hi'n fore wedyn, doedd. Roedd pob peth wedi cael ei wneud yn barod. Nid bod ni ddim, doedd bywyd ddim yn berffaith o hyd, ond roedden ni yn chwerthin lot am bethau gwirion.

Pethau gwaith neu bethau bywyd?

Pethau gwaith, ie. Ar ryw bethau bywyd, chi'mod, rhyw brogram neu rywbeth ar *television* ac wedi cael ni gyd yn chwerthin. Ac wedyn, oedden ni dal yn chwerthin trwy'r nos.

Oeddech chi a'ch gŵr yn swopio storiâu gwaith weithiau?

Oeddem, ond gan y gŵr, oedd o ddim yn deall beth oeddwn i'n siarad amdano, pan on i'n dweud bod i'n gwneud yr *hem*, 'O dw i ddim yn dallt. Be ti'n meddwl?' 'Wel, beth sy ar y gwaelod.' 'O'. Doedd gynno, y dweud y gwir, ddim *interest* yn y ngwaith i. **Achos bod o yn dreifio lori i'r Bwrdd Dŵr, doedd gynno fo'r creadur ddim byd i ddeud, jyst bod o wedi bod yn dreifio, chi'mod.**

45:16

Oedd o'n hapus bod chi'n gweithio?

Oedd. Yr unig beth oedd o, on i'n wneud lot o *cakes* adeg honno, a dw i'n cofio byddai o yn dod adre ar fin nos a deud 'O, dw i wedi deud wrth *so and so* yfory bod i'n mynd â chacen cyrens iddo fo.' 'Dw i ddim eisio gwneud cacen cyrens' medda fi. 'Dw i'n gwbod bod gen ti ddau funud i wneud o. Wna i olchi'r llestri tra ti'n wneud y cacen cyrens.'

Roedd rhaid i ti wedyn wneud y gacen?

Gwneud cacen. Oedd o'n gaddo cacen i bawb, ynde.

Oeddech chi'n dda yn gwneud cacennau felly, oeddech chi'n enwog?

Na, nac ydw, nac ydw. Ond oedden i'n dwneud tin bwyd, on'd oedd, a wastad cacen ynddo fo, a dyna fo yn roid tamaid o'i gacen o i'r dynion 'ma i drïo, a dyna rheiny yn deud bod nhw'n ei licio o ac oedd o'n deud 'Wneith hi wneud un i ti, 'sti'. Ie. So on I endio i fyny yn gwneud *cakes* i bawb.

Wnaethoch chi wrthod weithiau?

Nac on, nac on. Os oedd stwff gen i yn y tŷ, doedd dim bwys genna i. Roedd rhaid i ti gwcio adeg honno, on'd oedd.

Oeddech chi'n mynd â chacennau i mewn i'r gwaith yn y ffatri weithiau?

Oeddem. Pob pen-blwydd, os oedd o'n pen-blwydd chi, o'ch chi'n mynd â cacen i'r bobl oedd ar eich bwrdd chi, ynde, i'r giang bach 'na. Dyna ni i gyd yn rhoi cacen, rhywun yn dod â cacen ar eu pen-blwydd nhw, fel hynna oedden ni'n gwneud. Ond o'ch chi'n cael cerdyn pen-blwydd gan bawb.

Gan bawb?

Oedd. Oedd pawb yn dda iawn.

Oedd pawb yn gwybod?

Oedden, oedden, ac roedd pawb yn dda am rannu fferins, bod pawb yn prynu yn ei dro.

49:00

Felly, oeddech chi'n eistedd, pan ddach chi'n son am fwrdd, oedd giang ohonoch yn eistedd ar yr un bwrdd amser brêc?

Oedd, ac amser cinio, ac roedden ni'n gwneud yr un peth bob dydd. A fydd neb yn eistedd ar eich bwrdd chi, chi mod, byddwch chi'n mynd i'r cantîn a gwybod bod y bwrdd hwnna'n wag, achos bod chi wedi dechrau o'r dechrau. Oedd o'n iawn, chwarae teg.

Ac ar yr industrial estate, oedd ffatrioedd eraill?

Oedd, ond doedden nhw ddim yn agos atoch chi. Oedd na ffatri *chocolate* yno, ond o'ch chi wedi ... pethau.

Oes gynnoch chi rywbeth arall mewn cof, dw i ddim wedi gofyn?

Nac oes, dw i ddim yn meddwl, nac oes. Nac oes, dw i'n meddwl mod i wedi deud pob peth.

Fasai dewis gynnoch chi yn y lle cyntaf, fyddwch chi wedi mynd i weithio yn y ffatri neu aros gartref?

Na, roedd hi'n fater o raid, roedd rhaid i mi gael rhywbeth i'w wneud, achos y pres mwy na ddim byd. A dw i'n falch mod i wedi gwneud o, ddaru dalu am lot o bethau, ynde. 'Sw'n i ddim wedi cael hanner y pethau 'sw'n i ddim wedi gweithio.

Oedd eich bywyd chi yn well, felly?

Oedd, oedd.

50:00

Oeddech chi'n cymryd gwyliau haf i ffwrdd?

Nac oedden, achos bod y plant mor ifanc, wrth bod ni wedi priodi mor ifanc ac wedi cael y ddau blentyn yn syth, roedden ni methu fforddio wedyn, wir, er bod ni'n gweithio. roedden ni'n mynd i Swydd Caer am y diwrnod ond doedden ni byth yn mynd ar wyliau.

Yn y ffatri, oedd gwyliau gynnoch chi?

Oedd, roedden ni i gyd yn cymryd yr adeg yno. Roedd y pythefnos ola, yr wythnos ola yn *July* a'r wythnos gyntaf Awst, dyna oedd y gwyliau.

Oeddech chi'n aros gartref ac yn mynd ar day trips felly?

Ie, ie. **Roedd yn neis bod adre achos roeddech chi'n gweithio bob dydd.**

Oeddech chi eisiau mynd yn ôl wedyn ar ddiwedd y pythefnos?

Oeddwn, roeddwn i'n barod i fynd yn ôl achos roedd gan bawb gymaint i ddeud wrth ei gilydd. A dw i ddim yn gwybod beth oedd gynnwn ni i ddweud, deud y gwir, ond roeddwn i'n wastad yn edrych ymlaen, ac yn cael gwybod hanes pawb,

chi'mod. Oedd.

Yn ystod gwyliau plant o'r ysgol, achos oedd gynnyn nhw chwe wythnos?

Chwe wythnos.

Pwy oedd yn gofalu amdando nhw felly?

Mam, oedd. Roedd mam yn byw jyst dros y ffordd.

Gyfleus, felly?

Oedd.

Dyna fo, dw i'n credu. Diolch yn fawr iawn Cath.

Croeso.

English Translation

Ackroyd & Sons, Bala (1974 - 2008)

Interviewee: Mrs Cath Parry

Date: 11: 11: 2013

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

00:05 I was born on the ninth of April, 1944.
